# NEWYDDION YR ACADEMI

*CYLCHLYTHYR SWYDDOGOL ACADEMI DDELWEDDU GENEDLAETHOL CYMRU*




## CROESO

Gan Dr Phillip Wardle, Academi Cyfarwyddwr

Dydd Gŵyl Dewi hapus hwyr i chi i gyd.

Helo a chroeso i ail gylchlythyr yr Academi Ddelweddu. Rydyn ni newydd nodi dwy flynedd ers agor yn swyddogol ac mae'r ffordd mae'r Academi wedi datblygu ers hynny wedi bod yn syfrdanol.

Dwi'n credu bod blwyddyn gyffrous o'n blaenau a gobeithio y bydd rhagor o ddatblygiadau o ran arloesedd ac ymchwil i'w hadrodd yn ein cylchlythyrau yn 2021. Mae'r cylchlythyr hwn yn bennaf yn adlewyrchu'r gyfran fawr o hyfforddiant yn yr Academi dros y misoedd diwethaf, ond mae llawer mwy'n digwydd y tu ôl i'r llenni. Enghraifft benodol o hyn yw ein cydweithrediad â Collective Minds a'n gwaith o ran Uwchsain Pwynt Gofal, sy'n seiliedig ar waith a ddechreuodd ymhell cyn y pandemig. Os gallwn ni fanteisio ar rai o'r cyfleoedd o ran ymchwil, arloesi a hyfforddi, gan weithio gyda phartneriaid newydd a phartneriaid presennol, mae'r misoedd nesaf yn mynd i fod yn hynod o brysur.

Dwi'n arbennig o falch o'n tîm, sydd wedi helpu'r Academi i addasu a ffynnu ers i ni agor ac yn enwedig yn ystod y pandemig.  Yn ogystal â hynny, hoffwn i groesawu Natalie i Dîm Rheoli'r Academi. Mae hi'n ymuno â Victoria, Steve, Katie, Hannah, Ella a'n tîm anhygoel o Hyfforddwyr Sonograffeg a Meddygon Ymgynghorol yn yr Academi.

MYNNWCH WYBOD:

ARLOESEDD AC YMCHWIL 02

CYDWEITHREDIAD 03

HYFFORDDIANT 05

DIGWYDDIADAU 07

# Arloesedd ac ymchwil

## COLLECTIVE MINDS

COLLECTIVE MINDS RADIOLOGY

Mae 2020 wedi bod yn flwyddyn wahanol i unrhyw flwyddyn arall, wrth i bandemig COVID-19 newid y ffordd mae'r byd yn gweithio ar lefel fyd-eang. Yma yn yr Academi, rydyn ni wedi gorfod addasu er mwyn bodloni gofynion y gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu.

Cwrs adolygu FRCR 2B yw un o'n cyrsiau mwyaf poblogaidd ac mae pob lle yn cael ei gymryd bob tro. Wrth i ni orfod cadw pellter cymdeithasol, diheintio ein dwylo a gwisgo masgiau, rydyn ni wedi gorfod meddwl am ffordd o barhau â'r cwrs pwysig hwn yn ddiogel, gan barhau i gynnig yr un profiad uchel ei ansawdd.

Platfform cydweithredu radioleg yw Collective Minds ar gyfer ymgynghoriadau, addysg, ymchwil ac archwiliadau clinigol. Ar hyn o bryd, mae Collective Minds yn cael ei ddefnyddio ledled Ewrop, mewn ysbytai, prifysgolion meddygol, cymdeithasau radioleg a grwpiau is-arbenigedd, er mwyn darparu radioleg ar-lein ar gyfer ymgynghoriadau cydweithredol â chyfoedion ledled y byd. O ran addysg, mae'n cynnig ffordd ragorol o weld delweddau radioleg a rhyngweithio â nhw trwy gyrsiau, digwyddiadau hyfforddi a gweminarau. Mae'r Academi wedi defnyddio platfform Collective Minds i ddarparu cyrsiau FRCR 2b, yn ogystal â mentrau addysgol radioleg eraill. Mae Collective Minds yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y rhannau o'r cwrs sy'n ymwneud ag adrodd cyflym ac achosion hir. Mae'r cydweithrediad â'n tîm, yn enwedig Dr Tishi Ninan a Steve Buckle, yn golygu bod modd manipwleiddio delweddau PACS a sgrolio ar gyfer efelychu archwiliadau. Mae hwn yn ddull rhagorol o ystyried y sefyllfa sydd ohoni.

"Rydyn ni'n ddiolchgar iawn am y cyfle i gydweithio â'r Academi ar ddechrau 2020 i ddatblygu a darparu hyfforddiant radioleg ar-lein. Mae'r holl adborth a mewnwelediadau mae'r bartneriaeth wedi eu creu hyd yn hyn wedi bod yn werthfawr iawn ac wedi ein helpu ni i wella a datblygu ein gwasanaethau ymhellach. Rydyn ni'n edrych ymlaen at barhau i arloesi ym maes addysg radioleg gyda'r Academi drwy gydol y pandemig hwn a'r tu hwnt."

Fredrik Illerstam – Rheolwr Cynnyrch Collective Minds

Mae'r cydweithrediad hwn yn ddull arloesol newydd o ddarparu'r cwrs FRCR ar-lein ac rydyn ni'n edrych ymlaen at ddatblygu hyn ymhellach yn 2021.

www.cmrad.com/home

# Cydweithio

## FAMUS
## (Focused Acute Medicine Ultrasound)

Fel arbenigedd, mae Meddygaeth Acíwt yn gwella manylder asesiadau cychwynnol, gan roi diagnosis cywir a thriniaeth briodol i gleifion gyda sbectrwm eang o broblemau clinigol sy'n dod i'r ysbyty mewn cyflwr acíwt. Proses achredu Uwchsain Pwynt Gofal yw FAMUS sydd wedi ei chreu ar gyfer asesu cleifion meddygol sâl iawn. Mae'r achrediad ffurfiol hwn wedi ei gymeradwyo gan y Gymdeithas Meddygaeth Acíwt, Coleg Brenhinol y Radiolegwyr, y Gymdeithas Uwchsain Meddygol Brydeinig a'r Cyfarwyddwr Clinigol Cenedlaethol ar gyfer Diagnosteg.

> "Mae dyfodol disglair i POCUS gyda'r Academi. Does dim dwywaith amdani.
>
> *Eugene Tabiwo, Ymgynghordd mewn Meddygaeth Aciwt*

"Mae'n braf gan weithgor The Focused Acute Medicine Ultrasound (FAMUS), ar ran y Gymdeithas Meddygaeth Acíwt, weithio'n agos gydag Academi Ddelweddu Genedlaethol Cymru i ddatblygu rhaglenni ac adnoddau hyfforddi Uwchsain Pwynt Gofal (POCUS), gyda'r nod o greu mwy o gyfleoedd i bob clinigydd ledled Cymru ddefnyddio POCUS."

Nick Smallwood - Cadeirydd Gweithgor FAMUS

"Mae Uwchsain Pwynt Gofal (POCUS) yn dod yn ategiad pwysicach at arferion clinigol wrth y drws blaen, ond mae'n anodd i feddygon dan hyfforddiant gymryd rhan mewn llwybrau hyfforddi i gael achrediad yng Nghymru. Mewn Meddygaeth Acíwt, mae The Focused Acute Medicine Ultrasound (FAMUS) yn llwybr achredu derbyniol er mwyn dod yn gymwys ym maes Uwchsain Pwynt Gofal. Mae'r Academi wedi bod yn hynod gefnogol a chadarnhaol â'i chydweithrediad â FAMUS wrth barhau i ddatblygu llwybr hyfforddi ar gyfer meddygon dan hyfforddiant mewn Uwchsain Pwynt Gofal. Mae'r datblygiad hwn yn ei gyfnodau cynnar ond y nod yw cynyddu nifer y goruchwylwyr sy'n gallu darparu hyfforddiant Uwchsain Pwynt Gofal a symleiddio'r hyfforddiant er mwyn i feddygon dan hyfforddiant ennill achrediad dibynadwy dan ei arweiniad. Gyda chyfleusterau a chyfarpar o radd flaenaf yn yr Academi, mae cynnal cyrsiau POCUS yn yr Academi yn brofiad hynod o gadarnhaol sy'n cynnau brwdfrydedd i ddysgu trwy awyrgylch a rhaglen sydd wedi eu strwythuro'n ofalus ac yn cael eu darparu'n broffesiynol."

Eugene Tabiowo – Meddyg Ymgynghorol mewn Meddygaeth Acíwt

Byddwn ni'n cynnal y cwrs hwn am y tro cyntaf eleni ar ôl hwyluso cwrs goruchwylio eisoes yn 2020. Cadwch lygad ar ein gwefan ac ar y cyfryngau cymdeithasol am y cyhoeddiad.

famus
FOCUSED ACUTE MEDICINE ULTRASOUND

# Cydweithio

## Prostate Cancer UK – mpMRI ac yr Academi

Mae Prostate Cancer UK wedi gosod nod o sicrhau bod pob dyn gydag achos posib o ganser y prostad yn gallu cael sgan mpMRI cyn cael biopsi erbyn 2020.

Mae Prostate Cancer UK eisoes yn cydweithio ag ymddiriedolaethau ysbytai yn Lloegr, yn yr Alban ac yng Ngogledd Iwerddon i gyrraedd y nod hwn. Fodd bynnag, mae'r gwaith o fabwysiadu MRI cyn biopsi yn eang wedi bod yn arafach yng Nghymru oherwydd diffyg adnoddau a chymhlethdod y dechneg. Mae Prostate Cancer UK wedi bod yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru er mwyn goresgyn y problemau hyn a chynnig datrysiadau.

"Mae amrywiaeth eang o lwybrau diagnosteg i ddynion gydag achos posib o ganser y prostad ledled Cymru. Mae Byrddau Iechyd yng Nghymru wedi gwneud cynnydd sylweddol dros y deunaw mis diwethaf o ran mabwysiadu MRI amlbarametrig cyn biopsi, ar ôl cyhoeddi diweddariad ar ganllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol (NICE) ynghylch trin a rhoi diagnosis o ganser y prostad ym mis Mai 2019. Serch hynny, mae mwy o waith i'w wneud. Mae Grŵp Llwybrau Diagnosteg Canser y Prostad, mewn cydweithrediad â Prostate Cancer UK ac Academi Ddelweddu Genedlaethol Cymru, yn gweithio tuag at y safonau lleiaf ar gyfer y gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys pecyn cymorth ar gyfer hyfforddi a mentora radiolegyddion sy'n adrodd sganiau MRI amlbarametrig ar y prostad. Ein nod yw helpu i ddatblygu a chynnal gwasanaeth diagnosteg o ansawdd uchel fyddai'n fuddiol iawn i'n cleifion ledled Cymru."

Dr Balan Palaniappan – Radiolegydd Ymgynghorol / Hyfforddwr yr Academi

Mae'r Academi'n cydweithio â Bwrdd Strategaeth y Rhaglen Ddelweddu Genedlaethol a Prostate Cancer UK, fel aelodau o Is-grŵp Llwybr Diagnosteg Canser y Prostad. Ei nod yw safoni'r hyfforddiant a'r arfer o ran diagnosteg canser y prostad ledled Cymru a mynd ati i greu hyfforddiant penodol mpMRI yng Nghymru.

Fel rhan o'r cydweithrediad hwn, mae Prostate Cancer UK a Report and Image Quality Control (RAIQC) yn cynorthwyo clinigwyr ar draws y DU trwy blatfform hyfforddiant rhyngweithiol rhad ac am ddim sy'n helpu radiolegwyr i ddatblygu eu sgiliau dehongli sganiau mpMRI ar y prostad. Mae'r system yn hygyrch iawn, ac mae'n efelychu systemau y mae radiolegwyr yn eu defnyddio bob dydd. Mae'n galluogi radiolegwyr i ymarfer eu sgiliau adrodd yn rheolaidd, a'i nod yw gwella eu harbenigedd yn raddol. Bwriad y platfform, sy'n darparu adborth cychwynnol gan wroradiolegwyr arbenigol, yw magu hyder wrth benderfynu peidio â chynnal biopsi ar rai dynion, a gwella'r gallu i adrodd ar achosion cymhleth.

Ewch i'n gwefan am fwy o wybodaeth:
https://www.imagingacademy.wales/cy/cydweithrediadau/prostate-cancer-uk-mpmri-ac-academi-ddelweddu-genedlaethol-cymru

# Hyfforddiant

Ar hyn o bryd, rydyn ni ar agor ac yn cynnal ein cynllun hyfforddi fel yr arfer drwy gyfuno sesiynau wyneb yn wyneb yn yr Academi a sesiynau ar-lein.

## Arholiadau Radioleg Glinigol ac Oncoleg Glinigol yr RCR

The Royal College of Radiologists

Mae Coleg Brenhinol y Radiolegwyr (RCR) wedi gorfod ystyried ffyrdd newydd o drefnu arholiadau'r hydref oherwydd y pandemig. Cafodd yr Academi ei dewis i fod yn ganolfan arholi awdurdodedig a bydd rhai o aelodau ein tîm yn oruchwylwyr yr RCR.

Mae'r Academi Ddelweddu wedi croesawu ymgeiswyr o ledled y DU ac ar ôl cynnal yr arholiadau hyn yn llwyddiannus, byddwn ni'n un o'r canolfannau arholi yn 2021. Rydyn ni'n falch iawn o allu ennill ein plwyf fel canolfan arholi ac yn falch o berfformiad ein meddygon dan hyfforddiant a'n staff drwy gydol arholiadau'r hydref.

### Dyma'r adborth rydyn ni wedi ei gael oddi wrth ymgeiswyr sydd wedi sefyll eu harholiadau gyda ni'n ddiweddar:

"Roedd sefyll fy arholiad yn yr Academi'n golygu doedd dim rhaid i mi deithio ar y diwrnod cynt i'r lleoliad, roeddwn i'n gallu teithio o gartref. Roedd hyn yn golygu fy mod i wedi cael digon o orffwys ac yn gallu treulio'r diwrnod cyn yr arholiad yn adolygu, yn hytrach na theithio. Roedd hyn wedi gwella fy hyder yn fawr, yn enwedig gan fy mod i'n ailsefyll arholiad roeddwn i wedi ei fethu o'r blaen.

Fel canolfan arholi, roedd yr Academi'n broffesiynol ac yn lân ac roedd modd ymlacio'n fwy a bod yn agosach at bopeth na'r lleoliad blaenorol. Pan sefais yr arholiad o'r blaen, roedd rhaid i sawl trefnydd lenwi un o'r sawl ystafell cyfrifiaduron â llawer o ymgeisydd nerfus. Roedd y profiad yn ddi-drefn ac yn ddryslyd ac roedd popeth yn cael ei frysio. Yn yr Academi, roedd llai o ymgeiswyr yn eistedd yn yr un ystafell ac roedd popeth yn fwy trefnus o lawer. Oherwydd hyn, roeddwn i'n fwy tawel fy meddwl ac yn fwy parod i sefyll yr arholiad. Mae'n bosib mai dyma'r rheswm i mi lwyddo yn yr arholiad."

**Dr Benjamin Rothschild-Pearson** – Cofrestrydd Radioleg Glinigol / Meddyg dan Hyfforddiant yr Academi

"Doeddwn i ddim erioed wedi ymweld â'r Academi cyn dod ar gyfer fy arholiad. Roedd hi'n lleoliad gwych i gynnal yr arholiad. Mae'n gyfleus yn ddaearyddol, mae cyfleusterau TG rhagorol yno ac roedd y staff yn gyfeillgar ac yn groesawgar."

**Dr Craig Barrington** - Cofrestrydd Oncoleg Glinigol

"Roedd sefyll yr arholiad yn yr Academi'n brofiad da ac roedd y drefn a'r cyfleusterau'n dda. Roedd sefyll yr arholiad nid nepell wedi osgoi cymaint o drafferth ychwanegol."

**Dr M Ghali Salahia** – Cofrestrydd Radioleg Glinigol / Meddyg dan Hyfforddiant yr Academi

"Mae'r Academi'n hynod o gyfleus ac yn gost-effeithiol ar gyfer cynnal yr arholiadau. Bydd hi hefyd yn lleihau unrhyw bwysau a straen diangen, yn enwedig o ran gorfod teithio am amser hir cyn arholiad. Bydd awyrgylch cyfarwydd wrth sefyll yr arholiad yn yr Academi hefyd yn helpu i dawelu meddwl yr ymgeiswyr."


**Dr Sarah Anane-Adusei** – Cofrestrydd Radioleg Glinigol / Meddyg dan Hyfforddiant yr Academi

# Hyfforddiant

## Rhestrau o gleifion uwchsain yr Academi

Dechreuodd yr Academi delweddu cleifion ym mis Awst 2019, gan roi hyfforddiant ymarferol i radiolegwyr dan hyfforddiant Rhaglen Hyfforddi De Cymru mewn awyrgylch diogel. Mae hyn yn brofiad rhagorol i gyd-fynd â hyfforddiant mewn adrannau radioleg mewn ysbytai. Mae uwchsain yn cael ei ddefnyddio'n gyson mewn adrannau radioleg, ond erbyn hyn mae'r pandemig wedi rhoi mwy o bwysau arnyn nhw wrth i amseroedd apwyntiadau gynyddu er mwyn darparu mannau diogel rhag COVID-19 ac wrth i apwyntiadau gael eu gohirio yn ystod cyfnodau clo cenedlaethol a lleol.  Mae'n braf ein bod ni wedi ailddechrau mynd trwy ein rhestrau o gleifion i leddfu'r pwysau ar hyfforddiant uwchsain a galluogi cofrestryddion Radioleg De Cymru yn eu blwyddyn gyntaf i ddysgu oddi wrth sonograffwyr yr Academi.

Mae dau sonograffydd brwdfrydig gyda ni, sef Ceri Kasprzyca a Julia Kennedy ac maen nhw'n fodlon iawn trosglwyddo eu holl wybodaeth ac arbenigedd i bawb sy'n fodlon dysgu. Ar hyn o bryd, rydyn ni'n mynd trwy ein rhestrau o gleifion unwaith yr wythnos ac rydyn ni'n bwriadu cynyddu hyn yn y dyfodol.



% Mae 100% o gleifion yn hollol fodlon â'r gofal gawson nhw yn ystod eu harchwiliad uwchsain

% Dywedodd 100% o gleifion fod cyfleusterau'r Academi'n gyfforddus

"Fel sonograffydd yn y GIG, dwi'n credu ei bod hi'n hanfodol bwysig trosglwyddo'r wybodaeth a sgiliau dwi wedi eu datblygu ym maes uwchsain dros lawer o flynyddoedd o brofiad. Bydd y meddygon dan hyfforddiant presennol yn gofalu amdanom ni pan fyddwn ni'n hŷn, felly dyna gymhelliant gwych! Mae'r Academi Ddelweddu'n cynnig lleoliad delfrydol i addysgu, hyfforddi a goruchwylio ym maes uwchsain gyda chyfleusterau o'r radd flaenaf, fel rhith-gyrff gyda phatholegau mae modd eu rhaglenni, mynediad i gleifion sydd wedi cael eu hatgyfeirio o'r Adran Radioleg yn Ysbyty Tywysoges Cymru, cyfarpar uwchsain o ansawdd uchel a RadIS. I hwyluso'r hyfforddiant uwchsain, mae rhestrau o gleifion yn cael eu darparu'n unol â chymhwysedd y meddygon dan hyfforddiant. Yna, bydd modd rhoi sylw un wrth un i'r meddygon dan hyfforddiant gyda llai o bwysau i archwilio nifer benodol o gleifion mewn amser penodedig, fel y byddent mewn lleoliad clinigol. O safbwynt personol yn yr Academi, dwi hefyd yn datblygu fy ngwybodaeth am uwchsain o hyd, sy'n cynnwys uwchsain o ysgyfaint cleifion gyda COVID-19 yn ystod y pandemig.
Dwi'n mwynhau'n fawr yr her o helpu gweithiwr meddygol proffesiynol, sydd ddim erioed wedi hyd yn oed dal chwiliedydd uwchsain, i fod yn sonograffydd sy'n hyderus ac yn gymwys yn glinigol, boed hynny'n feddyg, yn radiograffydd neu'n fydwraig."

Ceri Kasprzyca – Sonograffydd yr Academi

# Digwyddiadau

## Hyfforddiant Uwchsain o'r Ysgyfaint

Yn ystod pandemig COVID-19, roedd modd i ni ddefnyddio efelychiad uwchsain i hyfforddi ymarferwyr i roi diagnosis o COVID-19 ar sganiau o'r ysgyfaint. Rydyn ni wedi defnyddio dull dysgu cyfunol ac wedi cyfuno cyflwyniadau ar-lein, gyda sesiwn hyfforddiant arbennig i ddilyn ynglŷn ag efelychwr BodyWorks Eve POCUS mewn amgylchedd diogel rhag COVID-19.

Roedd y cwrs ar gael i bob ymarferydd uwchsain profiadol yn GIG Cymru ac roedd modd i ni gynnal hyfforddiant ar gyfer 67 o glinigwyr yn ddiogel yn ystod y pandemig.

Rydyn ni'n ailddechrau'r hyfforddiant uwchsain o'r ysgyfaint ac mae rhagor o fanylion, yn ogystal â gwybodaeth am gofrestru, i'w gweld ar ein gwefan.

"Tiwtora un wrth un rhagorol, amyneddgar ac roedd cyfarwyddiadau clir. Teimlais i'n hyderus ac yn llawn gwybodaeth ar ddiwedd y sesiwn

% Ers hynny, mae 57.9% o glinigwyr wedi defnyddio'r hyfforddiant gyda chleifion COVID-19

"Yr awr orau o addysgu uwchsain dwi wedi ei chael ac roedd yr efelychydd yn wych

% Mae 79.8% o glinigwyr wedi defnyddio'r sgiliau maen nhw wedi eu dysgu ar gleifion heb COVID-19

https://www.imagingacademy.wales/cy/sesiynau-hyfforddi-ar-sganior-ysgyfaint-ag-uwchsain

## Cwrs Ymsefydlu Radioleg Frys

Cwrs Ymsefydlu Radioleg Frys Rhwng mis Tachwedd 2020 a mis Chwefror 2021, cynhaliom ni ein Cwrs Ymsefydlu Meddygaeth Frys yn llwyddiannus ac yn ddiogel dros 4 diwrnod. Mae'r cwrs yn agored i bob clinigydd allai elwa ar gymorth ar gyfer dehongli radiograffau plaen Adrannau Brys ac mae'n eich helpu i ddysgu drwy ddarlithoedd rhyngweithiol ar ddehongli delweddau ac adolygiadau achos, a'r cyfan mewn amgylchedd sy'n ddiogel rhag COVID-19.

Rydyn ni wedi cael adborth rhagorol oddi wrth ymgeiswyr a byddai 100% o'r ymgeiswyr yn argymell y cwrs i bobl eraill.

"Mwynheais i'r cwrs yn fawr. Roedd yr addysgu'n wych. Roedd hi'n arbennig o ddefnyddiol cael cyngor a syniadau ynghylch synapsau ac ymarfer dehongli llawer o wahanol ddelweddau radiograffig. Diolch."

Adborth dienw gan rywun fynychodd y cwrs ym mis Chwefror 2021

# Digwyddiadau

## Cwrs Adolygu FRCR IIb

Ym mis Rhagfyr 2020 ac ym mis Chwefror 2021, cynhaliom ni ein cwrs adolygu dros ddau ddiwrnod ar gyfer ymgeiswyr oedd yn sefyll yr arholiad radioleg FRCR 2b. Mae dwy ran i'r cwrs adolygu.

- Bydd yr ymgeiswyr yn cael sesiynau Viva gydag "arholwyr" radiolegol profiadol drwy Microsoft Teams gan fod hyn yn efelychu ffurf bresennol yr arholiadau. Bydd yr ymgeiswyr yn gweld y delweddau y mae'r arholwyr yn eu rhannu ac yn "mynnu rheolaeth" ar y llygoden wrth esbonio'r achosion.
- Bydd yr ymgeiswyr hefyd yn cwblhau'r rhannau o'r ffug arholiadau sy'n ymwneud ag achosion hir ac achosion adrodd cyflym drwy Collective Minds. Mae'r rhain yn cael eu marcio yn ystod y cwrs. Bydd canlyniadau'r ymgeiswyr ac adborth yn cael eu hanfon yn uniongyrchol atyn nhw drwy e-bost, yn ogystal â sesiynau adborth y grŵp ar ddiwedd pob dydd.

Bydd manylion y cyrsiau sydd i ddod yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan: http://imagingacademy.wales/cy

> "Tiwtoriaid gwych ac achosion gwych. Un o'r rhannau VIVA gorau o gwrs dwi wedi ei mynychu.
>
> Mynychwr ym mis Rhagfyr 2020

> "Cwrs gwych sy'n cynnig 'ffug' arholiad 2B realistig
>
> Mynychwr ym mis Rhagfyr 2020

## CYRSIAU, DIGWYDDIADAU A SESIYNAU ADDYSG ERAILL SYDD I DDOD

| | |
|---|---|
| Cwrs FAMUS | Mai 2021 |
| Cwrs Ymsefydlu Radioleg Frys | Mai 2021 |
| Cwrs Adolygu FRCR IIb | Mai 2021 |
| Cwrs Adolygu FRCR IIb | Medi 2021 |
| Pelydr-X o'r frest | Medi 2021 |
| Cwrs Colonograffi CT | Yn dod 2021 |
| Gweithdy Argraffu 3D | I'w gadarnhau |
| Hyfforddiant Uwchsain o'r Ysgyfaint | Yn barhaus |

### DYSGU AR-LEIN

| | |
|---|---|
| Hyfforddiant Diogelwch Ymbelydredd Sefydliad Radioleg Prydain (BIR) | Mawrth 2021 |
| Hyfforddiant Deallusrwydd Artiffisial NVIDIA | Mai 2021 |

Os ydych chi am ymuno â'n rhestr gyfathrebu, llenwch y ffurflen anlynol:
https://docs.google.com/forms/d/e/1FAIpQLSfWKtUG3DAnjPq8oJ73o1pfljw2mBlmAZzGt3ys4PKg6Pmm8w/viewform?usp=sf_link